# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Cartref y Borth**

**Ffordd Berthddu**
**Llanrwst**
**LL26 0HG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/12/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Cartref y Borth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal a Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ebrill 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael ac yn fodlon eu byd yn eu hamgylchedd. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac maent yn garedig ac yn gefnogol. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gofal ac yn sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn ffordd effeithiol. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn cynnwys y bobl yn y broses o wneud penderfyniadau am eu hanghenion gofal a'u harferion dyddiol. Mae'r staff gofal yn trin y bobl mewn modd caredig, ac mae eu cydberthnasau â'r staff gofal yn gadarnhaol ac yn barchus. Gwelsom fod y staff gofal yn amyneddgar ac yn rhyngweithio â'r bobl yn naturiol, gan sicrhau y caiff y bobl eu cynnwys mewn sgyrsiau. Mae'r darparwyr wedi cymryd camau i ddiogelu rheolwyr y gwasanaeth. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus yn yr amgylchedd, sy'n lân ac yn helaeth.

Caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu. Mae'r staff gofal yn cadw llygad ar anghenion gofal y bobl, eu dymuniadau a'u teimladau; caiff barn eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ei hystyried. Anogir y bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dyddiol, ac maent yn cael dewis prydau bwyd. Gellir dibynnu ar y rheolwyr i atgyfeirio materion iechyd unigol at weithwyr iechyd proffesiynol priodol pan fo angen. Mae'r gwahanol ardaloedd byw yn y gwasanaeth yn cynnig dewis a lle i bobl dreulio eu hamser.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae cofnodion gofal y bobl yn cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion gofal a'r risgiau posibl i'w iechyd. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac maent yn sicrhau bod y cofnodion hyn yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu. Mae'r staff gofal yn gwybod beth i'w wneud os byddant o'r farn bod rhywun yn wynebu risg o niwed. Mae'r rheolwr yn drefnus ac mae'n sicrhau bod y staff gofal yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu sy'n ofynnol. Caiff polisïau a gweithdrefnau diogelu eu diweddaru a'u hadolygu gan y darparwr.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân, cynnes a chartrefol. Mae'r staff gofal a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn annog ac yn cefnogi'r bobl i dreulio amser yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud,  yn annibynnol, neu gyda'i gilydd. Mae'r rheolwyr yn bwriadu gwneud gwelliannau i'r amgylchedd ond maent yn blaenoriaethu llesiant y bobl.

## Gofal a Chymorth

Caiff amrywiaeth eang o wybodaeth a safbwyntiau eu hystyried er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth gefnogi anghenion a chanlyniadau unigol y bobl. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gysylltu â'r rheolwr a'r staff gofal ac ymweld â'r gwasanaeth lle y bo'n bosibl. Gwnaethom edrych ar dri chynllun personol a oedd yn cynnwys manylion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am anghenion gofal unigol. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y gofal yn cael ei gynllunio ar sail anghenion gofal unigol y bobl, eu dewisiadau a'u harferion. Gwelsom dystiolaeth bod teuluoedd y bobl a gweithwyr proffesiynol priodol yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r rheolwr wedi rhoi proses effeithiol ar waith ar gyfer adolygu a monitro'r gofal.

Mae'r bobl yn hyderus bod gan ddarparwyr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ynghylch y ffordd y darperir eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cynlluniau personol yn diwallu anghenion unigol. Gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol, neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae asesiadau risg unigol yn ategu'r cofnodion gofal. Dangosodd yr uwch-staff gofal y system a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am anghenion y bobl yn gyfredol, yn fanwl, ac yn cynnwys sylwadau a dewisiadau'r bobl. Mae'r staff gofal yn garedig, yn amyneddgar ac yn adnabod y bobl yn dda; mae hyn yn ychwanegu at lwyddiant y broses o fonitro cofnodion gofal.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl. Gwelsom dystiolaeth bod asesiadau risg unigol yn ystyried risgiau i lesiant corfforol ac emosiynol. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd os byddant yn pryderu y gall fod rhywun yn wynebu risg. Mae'r rheolwyr yn cymryd camau goruchwylio effeithiol er mwyn sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Gwelsom dystiolaeth o ymatebion priodol ac amserol gan y rheolwyr i faterion diogelu. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y polisïau a gweithdrefnau ar ddiogelu yn gyfredol a bod y staff gofal a'r rheolwyr yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd.

Mae'r systemau meddyginiaeth yn effeithiol ac yn ddiogel. Caiff y cofnodion meddyginiaeth eu monitro a'u hadolygu gan y rheolwyr. Gwelsom fod y cofnodion yn gywir ac yn cael eu llunio'n brydlon, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi staff gofal lle bo angen. Caiff y staff gofal hyfforddiant ar feddyginiaeth a chânt eu mentora gan y rheolwyr i sicrhau eu bod yn gymwys i roi meddyginiaeth. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a bod stociau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â meddyginiaeth yn gyfredol ac ar gael i'w gweld.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd y gwasanaeth yn lân ac yn gartrefol. Dywedodd tri o'r bobl wrthym eu bod yn mwynhau treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol a'u bod yn hoff o'u hystafelloedd gwely. Gwelsom un unigolyn yn gwneud sylwadau ac yn rhannu ei farn ar lun newydd yn un o'r ystafelloedd byw. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y rheolwr a'r darparwr yn gwneud gwaith goruchwylio a monitro rheolaidd. Mae'r rheolwr wedi nodi gwelliannau sydd i'w gwneud y tu mewn, er bod agweddau eraill ar y gwasanaeth yn cael blaenoriaeth ar hyn o bryd.

Mae'r rheolwyr a'r staff gofal yn sicrhau y caiff unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u lleihau. Mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r adeilad, a chedwir y drysau ar glo; mae'n ofynnol hefyd i ymwelwyr ddefnyddio hylif diheintio dwylo a golchi eu dwylo wrth gyrraedd, yn unol â pholisi rheoli heintiau'r gwasanaeth. Gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardaloedd cymunedol yn y cartref yn annibynnol, gyda help y staff gofal pan fo angen. Gallai'r bobl elwa pe bai canllawiau ychwanegol ar gael yn y coridorau rhwng yr ystafelloedd byw cymunedol a'r ystafelloedd ymolchi. Mae gan y bobl gymhorthion cerdded lle bo eu hangen. Mae Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng pob preswylydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae ar gael ac yn hygyrch. Dengys y cofnodion cynnal a chadw fod y cyfarpar trydanol, y goleuadau a'r cyfarpar diogelwch tân yn cael eu monitro a'u profi o fewn terfynau amser.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Gwelsom fod y staff gofal yn cael eu fetio, eu recriwtio a'u hyfforddi'n effeithiol. Mae ffeiliau'r staff gofal yn dangos tystysgrifau hyfforddiant y staff mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys meysydd arbenigol, e.e. gofal lliniarol a gofal dementia. Gwelsom fod y staff gofal yn cael eu cefnogi a'u monitro o fewn y terfynau amser gofynnol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod o'r farn bod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch y gefnogaeth a gânt gan y rheolwyr.

Mae'r datganiad o ddiben ar gael ar y safle a thrwy wefan y gwasanaeth. Gwelsom fod y ddogfen yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir; mae'r ddogfen hon hefyd yn unol â'r fersiwn a geir yng nghofnodion AGC. Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn hawdd ei ddarllen ac wedi'i llunio'n briodol.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau'r gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Gwelsom fod systemau ar waith i oruchwylio'r gofal a ddarperir yn effeithiol. Gwelsom fod atgyfeiriadau amserol at weithwyr proffesiynol priodol pan fydd anghenion gofal yn newid. Dengys y rhaglen hyfforddi fod y gwasanaeth yn sicrhau y caiff y staff gofal yr hyfforddiant gofynnol o fewn y terfynau amser gofynnol. O ganlyniad i'r rheolaeth effeithiol, gall y bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal a'r rheolwyr. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml yn unol â gofynion y rôl. Mae'r rheolwr a'r darparwr yn cydweithio'n dda i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg a'i oruchwylio'n effeithiol.

Mae'r darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod niferoedd y staff yn ddigonol yn gyson a bod trefniadau ar waith pe bai staff yn sâl neu'n absennol. Dengys rota'r staff gofal fod digon o staff ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod o'r farn bod digon o staff ar gael. Gwelsom fod gan y staff gofal y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion gofal y bobl a chyflawni eu canlyniadau. Gwelsom fod y staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant a chymwysterau priodol ar wahanol lefelau. Gwelsom fod y staff gofal yn garedig ac yn amyneddgar â'r bobl a'u bod yn eu hannog i gymryd rhan mewn sgyrsiau a gweithgareddau.

## Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol

| | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/02/2021